**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

13 Chwefror 2025

Annwyl Mike

**Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Hawliau Cyflogaeth**

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth at ein Pwyllgor, a bwriadwn gyhoeddi adroddiad ar y materion polisi maes o law. Yn ystod ein hystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, fodd bynnag, roeddem mor bryderus ynglŷn â Chymal 26 o'r Bil, fel y cyfeirir ato yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nes bod y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn briodol fy mod yn ysgrifennu atoch a mynegi ein barn.

Fel y gwyddoch, mae Cymal 26 yn mewnosod adran 78A newydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol baratoi a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb". Nodwn, er fod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig Cymru wedi'u heithrio, mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys i Gomisiwn y Senedd. Cawsom ein synnu'n arbennig hefyd, er bod Cymal 26 yn nodi bod yn rhaid i Weinidog y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n gymwys i gyrff cyhoeddus penodol nad ydynt wedi'u datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru, nad oes gofyniad o'r fath wrth wneud rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd.

Teimlwn ei bod yn gwbl amhriodol i Lywodraeth y DU gymryd pwerau sy'n caniatáu iddi osod gofynion ar Gomisiwn y Senedd ynghylch sut y mae'n gweithredu, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith na fydd gofynion o'r fath yn gymwys i awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru. Yn ein barn ni, dylai Comisiwn y Senedd fod yn atebol i'r Senedd ac nid i Weinidogion Llywodraeth y DU.

Byddwn yn cynnwys rhywfaint o fanylion am hyn yn ein hadroddiad. Fel y Pwyllgor sy'n arwain ar faterion cyfansoddiadol, fodd bynnag, roeddem yn teimlo ei bod hefyd yn briodol i nodi'r pryderon hyn gyda chi.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Joyce Watson AS, yn ei rôl fel Comisiynydd Cydraddoldeb y Senedd, Jack Sargeant AS, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, sydd hefyd yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn.

Cofion cynnes,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Joyce Watson AS, Comisiynydd Cydraddoldeb y Senedd

Jack Sargeant AS, Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Jenny Rathbone AS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol